❖ Dywediadau a Thraddodiadau'r Adfent

Cyfnod o ymprydio cyn y Nadolig oedd tymor yr Adfent yn wreiddiol. Roedd yn dechrau ar Sul y Dyfodiad, sef y pedwerydd Sul cyn y Nadolig. Yn ôl pob tebyg arferiad ddaeth o'r Almaen ganol yr ugeinfed ganrif yw Calendr yr Adfent.

Yn ystod tymor yr Adfent dethlir Gŵyl Sant Niclas ar 6 Rhagfyr. Dyma Sinfer Klaus yn yr Iseldiroedd, ac o'r enw hwn y cawsom Santa Clos. Fe'i ganed yn Lycia yn Asia Leiaf o gwmpas OC 270 ac yn ddwy ar bymtheg oed fe'i hordeiniwyd yn offeiriad. Er ei fod yn ŵr cyfoethog, ei ddymuniad oedd rhannu ei ffortiwn efo pobl dlawd a hynny yn y dirgel heb i neb wybod pwy oedd yn dosbarthu'r anrhegion. Sant Niclas ydi nawddsant gwlad Groeg a Rwsia.

Mae ail Sul yr Adfent yn Sul y Beibl. Sul i gofio am orchestion William Morgan, William Salesbury a Thomas Charles o'r Bala a oedd i raddau helaeth iawn yn gyfrifol am sefydlu'r Feibl Gymdeithas ym 1804.

Fel mae tymor yr Adfent yn dirwyn i ben dathlwn Droad y Rhod neu Alban Arthen, y dydd byrraf ar 21 Rhagfyr. Yn ôl hen arferiad rhoddwyd torch o ganghennau bytholwyrdd i warchod y beudy. Hen goel arall oedd y byddai'r gwartheg am hanner nos yn penlinio i gydnabod geni Iesu Grist.

Roedd 21 Rhagfyr hefyd yn Ddydd Gŵyl Tomos ac o pa le bynnag y byddai'r gwynt yn chwythu ar y diwrnod hwn yno y byddai am weddill y gaeaf.